**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**
**PANEL GWEITHREDOL**

Cofnodion Cyfarfod Panel Gweithredol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd 26 Hydref 2015 ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub, Llanelwy. Dechreuodd y cyfarfod am 10.00 y bore.

PRESENNOL

| **Y Cynghorydd** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| M Ll Davies (Cadeirydd) | Cyngor Sir Ddinbych |
| L W Davies | Cyngor Sir Ynys Môn |
| R Davies | Cyngor Sir Ddinbych |
| T A Edwards | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| R O Jones | Cyngor Sir Ynys Môn |
| P R Lewis | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| G Lowe | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| H McGuill | Cyngor Sir y Fflint |
| P W Owen | Cyngor Sir Ddinbych |
| W R Owen | Cyngor Gwynedd |
| R E Parry | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |

HEFYD YN BRESENNOL:

S A Smith (Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr); K Finch (Trysorydd); C Everett (Clerc a Swyddog Monitro); R Fairhead a R Simmons (Prif Swyddogion Tân Cynorthwyol); G W Griffiths (Uwch Reolwr Hyfforddiant a Datblygu); G Brandrick (Uwch Reolwr Safonau Proffesiynol y Gwasanaeth); K Roberts (Uwch Reolwr Gweithrediadau); S Millington (Uwch Reolwr Diogelwch Tân); S Morris (Rheolwr Cynllunio Corfforaethol); T Williams (Rheolwr Cyfathrebu Corfforaethol); S Barry, Swyddfa Archwilio Cymru; A Davies (Swyddog Cyswllt Aelodau).

1 YMDDIHEURIADAU

| | |
|---|---|
| Y Cyng B Dunn | Cyngor Sir y Fflint |
| Y Cyng W T Owen | Cyngor Gwynedd |
| Y Cyng A Tansley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| D Docx | Dirprwy Brif Swyddog Tân |

2 DATGAN BUDDIANNAU

2.1 Dim

3 RHYBUDD O FATERION BRYS

3.1 Dim

4 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD 20 GORFFENNAF 2015

4.1 Cafodd cofnodion y cyfarfod diwethaf eu cyflwyno i'w cymeradwyo.

4.2 **PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cofnodion yn gofnod gwir a chywir.**

5 MATERION YN CODI

5.1 Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

6 YR OPSIYNAU O RAN Y GYLLIDEB 2016-17

6.1 Cyflwynodd y PST yr adroddiad a oedd yn rhoi'r diweddaraf i'r Aelodau ynglŷn â datblygu cyllideb refeniw ddrafft yr Awdurdod Tân ac Achub ar gyfer 2016-17.

6.2 Mae'r pwysau ariannol sy'n wynebu'r sector cyhoeddus yn hysbys iawn, ac felly cynigir y dylai ail amcan yr Awdurdod am y cynllun tair blynedd gael ei newid o 'gyfyngu'r gost o ariannu lefel gyfredol y gwasanaeth i £1 y flwyddyn y pen yn ychwanegol' i 'ddatblygu strategaeth ariannol tair blynedd lle bydd rhewi'r gyllideb yn egwyddor ganolog'.

6.3 Nodwyd y rhagwelir na fydd Llywodraeth Cymru yn gallu cyhoeddi ei chyllideb ddrafft tan yn gynnar yn 2016 oherwydd na fydd yr adolygiad cynhwysfawr o wariant gan Lywodraeth y DU yn cael ei gyhoeddi tan 25 Tachwedd. Mae i hyn oblygiadau i ddyddiad cau yr awdurdodau tân ac achub (sef 30 Rhagfyr) ar gyfer rhoi gwybod i'r awdurdodau cyfansoddol beth fydd eu cyfraniadau arfaethedig i'r ATA. I ateb cwestiwn gan un o'r aelodau, cadarnhawyd y gellid cyhoeddi cais am gyfraniad atodol yn ystod y flwyddyn, ond cyngor y Trysorydd oedd osgoi hyn os oes modd. O ganlyniad i'r oedi hwn, dim ond ystyried adroddiad cynnydd ar y gyllideb y bydd yr Awdurdod yn gallu ei wneud yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr ac felly bydd angen cynnal cyfarfod arbennig yn Ionawr 2016.

6.4 Mae nifer o bwysau posibl ar y gyllideb ar gyfer 2016-17 yn parhau'n ansicr neu heb eu cyfrifo. Mae hyn yn cynnwys dyfodol grantiau uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys y grant blynyddol hirsefydlog o £400k a ddarperir ar hyn o bryd ar gyfer radio a chysylltiadau (Airwave). Fodd bynnag, rhagwelir mai £1.3 miliwn yw'r gwahaniaeth rhwng cost cyllideb barhau a chyllideb wedi ei rhewi, ond nodwyd mai dros dro yw hyn ac mai isafswm ydyw ar hyn o bryd.

6.5 Bu'r Aelodau'n trafod defnyddio'r gronfa gyffredinol i danategu'r gyllideb, a chynghorodd y Trysorydd y byddai defnyddio'r gronfa hon yn golygu risg sylweddol i'r Awdurdod yn y tymor hir. Cynghorir yn gyffredinol y dylid cadw 5% o'r holl gyllideb bob amser, a byddai hyn yn cyfateb i £1.5 miliwn o gyllideb yr Awdurdod. Dywedodd y Clerc mai sefyllfa bontio yw'r gronfa wrth gefn er mwyn rhoi amser i gynllunio camau pellach. Ar ôl trafod y mater, gyda'r swyddogion yn ateb cwestiynau gan yr aelodau, symudodd y Cadeirydd at yr argymhellion.

6.6 **PENDERFYNWYD**

**(i) nodi achos yr oedi wrth osod cyllideb fantoledig ar gyfer 2016-17;**

**(ii) argymell i'r Awdurdod y dylid cynnal cyfarfod arbennig o'r Awdurdod Tân ddydd Llun 25 Ionawr 2016 i gytuno ar y gyllideb;**

**(iii) argymell i'r Awdurdod y dylid llunio cyllideb 2016-17 ar sail lefel gyfredol y gwasanaethau;**

**(iv) argymell bod yr Awdurdod yn ystyried tanategu cyllideb 2016-17 gydag arian o'r cronfeydd cyffredinol, gan dalu sylw i'r risgiau sylweddol y mae hynny'n ei greu ar gyfer y blynyddoedd wedyn.**

7 MONITRO PERFFORMIAD

7.1 Roedd yr adroddiad yn darparu gwybodaeth i'r Aelodau am weithgarwch Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru a monitro perfformiad o'i gymharu â'r amcanion gwella.

7.2 Aeth y Rheolwr Cynllunio Corfforaethol â'r Aelodau drwy'r adroddiad, a thynnu sylw at y canlynol:

7.3 Roedd y rhan fwyaf o gategorïau dan amcan gwella 1, sef atal marwolaethau ac anafiadau oherwydd tanau damweiniol mewn anheddau, heb fod cystal ag y buont ar yr adeg hon y llynedd. Ond, o gymharu â blynyddoedd blaenorol dim ond amrywiadau bychain oedd yna ac felly gellid ystyried bod proffil perfformiad y Gwasanaeth yn 'sefydlogi'. Roedd yr Aelodau'n cydnabod hefyd nad oedd unrhyw ddirywiad mawr ar y cyfan yn y perfformiad yn unrhyw un o'r categorïau er gwaethaf yr heriau a oedd yn wynebu'r Gwasanaeth.

7.4 Awgrymodd y Dirprwy Gadeirydd edrych a oedd unrhyw gydberthynas rhwng diffyg larymau mwg mewn tanau mewn anheddau a faint o waith ataliol a wneir gan y Gwasanaeth.

7.5 Mynegodd y Cyng. McGuill bryder am nifer y tanau a ddigwyddodd mewn anheddau lle nad oedd y larwm mwg wedi canu. Cadarnhawyd mai dyma'r achos mewn 33 allan o'r 55 o danau, ac roedd y rhan fwyaf o'r tanau hyn wedi cael eu cyfyngu i'r ystafell lle bu iddynt gychwyn; gofynnodd y Cyng. McGuill a oedd hyn yn arwydd fod y tanau hyn wedi digwydd o ganlyniad i ddyfeisiau trydanol a gofynnodd i'r wybodaeth hon gael ei darparu yn y cyfarfod nesaf o'r Panel Gweithredol er mwyn i'r aelodau gael gwell dealltwriaeth o'r ffigyrau.

7.6 Roedd cyfanswm nifer y digwyddiadau yr aethpwyd atynt wedi gostwng bron 25%, gan ddangos bod gwaith ataliol yr Awdurdod yn parhau i fod yn effeithiol. Bu gostyngiad ymhob math o dân heblaw am danau simnai lle bu cynnydd bychan o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2014-15.

7.7 Da oedd nodi bod gostyngiad yn nifer y tanau mewn safleoedd annomestig er bod cynnydd yn nifer y mathau hyn o safleoedd ledled y gogledd.

7.8 Mae polisi newydd yr Awdurdod i beidio â mynd at alwadau di-gadarnhad o larymau tân awtomatig mewn rhai safleoedd annomestig wedi cael effaith gadarnhaol ar weithgarwch yn y chwe mis cyntaf ers ei roi ar waith, gan ddangos 76.3% o ostyngiad o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2014-15.

7.9 **PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad monitro perfformiad.**

8 PROSIECTAU ATEGOL CYLLIDEB YR AWDURDOD TÂN AC ACHUB 2015-16 – Y DIWEDDARAF

8.1 Cyflwynodd y PSTC Fairhead yr adroddiad a oedd yn rhoi gwybod i'r Aelodau am effeithiau penderfyniadau'r Awdurdod i roi'r gorau i ddarparu gwasanaethau arbenigol achub â rhaffau ac achub anifeiliaid mawr, a'r trefniadau newydd ar gyfer galwadau sy'n deillio o larymau tân awtomatig (LTAau).

8.2 Cafodd yr Aelodau eu hatgoffa fod yr Awdurdod, ar ôl cael gwybod am yr arbedion cost posibl a'r effeithiau risg o roi'r gorau i'r gwasanaethau anstatudol hyn a mynd at lai o alwadau gan LTAau, wedi penderfynu gweithredu'r newidiadau hyn o 1 Ebrill 2015 ymlaen gyda'r bwriad o adolygu'r penderfyniadau ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2015-16.

8.3 Nodwyd na chafwyd unrhyw alwadau ers 1 Ebrill 2015 i fynd at unrhyw ddigwyddiadau lle'r oedd angen achub â rhaffau; allan o'r 10 galwad i ofyn am gymorth i achub anifeiliaid mawr, aethpwyd allan unwaith. Allan o'r 685 o alwadau gan LTAau, aethpwyd at 45 o ddigwyddiadau. Roedd yr arbedion arian parod i'r Awdurdod bron yn £35k hyd yma. O ran arbedion nad ydynt yn arian parod, nid oedd criwiau amser cyflawn wedi cael eu hanfon at 264 o alwadau ac felly roeddent wedi gallu defnyddio eu hamser yn fwy effeithiol ar weithgareddau megis gwaith diogelwch cymunedol neu hyfforddiant; a dywedodd y Cadeirydd fod peidio â mynd at ddigwyddiadau LTAau yn golygu bod criwiau'n fwy tebygol o fod ar gael i fynd at ddigwyddiadau go iawn. Roedd yr Aelodau'n ddiolchgar am y cyngor a'r arweiniad a ddarparwyd er mwyn i'r Awdurdod wneud y penderfyniadau hyn.

8.4 **PENDERFYNWYD nodi'r effaith gadarnhaol o ganlyniad i gyflwyno'r polisïau newydd.**

9 ADRODDIAD GWELLA BLYNYDDOL

9.1 Daeth Steve Barry i'r cyfarfod i gyflwyno'r Adroddiad Gwella Blynyddol gan Swyddfa Archwilio Cymru i'r Aelodau. Mae'n ofynnol i Archwilydd Cyffredinol Cymru adrodd pa mor dda y mae awdurdodau cyhoeddus yn cynllunio ar gyfer gwella ac yn darparu eu gwasanaethau. Nodwyd bod yr adroddiad wedi cael ei gyhoeddi ar wefan y Swyddfa Archwilio.

9.2 Dywedodd Mr Barry fod yr adroddiad yn un cadarnhaol a bod trefniadau cynllunio yn eu lle o fewn yr Awdurdod a'i fod yn debygol o gydymffurfio â threfniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn 2015-16. Ar ôl gwrando ar y drafodaeth a thrafod yn y cyfarfod, roedd Mr Barry wedi'i sicrhau a'i fodloni bod yr Awdurdod yn cynllunio'n briodol. Dywedodd hefyd y dylai'r Awdurdod gael ei ganmol am wneud arbedion o £2 miliwn ar gostau staff gan gynnal a gwella ei wasanaethau ar yr un pryd.

9.3 Roedd dau cynnig bach ar gyfer gwella wedi cael eu hawgrymu, sef cyhoeddi cynllun ariannol tymor canolig a chadw cofnod llawn o waith ategol ar brosiectau.

9.4 Teimlai'r Cyng. Lewis y dylid croesawu'r adroddiad ac y dylai'r Awdurdod ei longyfarch ei hun ar gael adroddiad mor gadarnhaol. Nodwyd bod y cynllun ariannol tymor canolig yn waith sy'n mynd rhagddo ac y caiff ei gyhoeddi'n barod ar gyfer blwyddyn ariannol 2016-17.

9.5 **PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad gwella blynyddol.**

10 STRATEGAETH ADNODDAU

10.1 Rhoddodd y PSTC Simmons gyflwyniad i roi gwybod i'r Aelodau am strategaeth adnoddau gweithredol y Gwasanaeth ar gyfer 2015-16 a'r tu hwnt.

10.2 Mae'r strategaeth adnoddau gweithredol yn cael ei dylanwadu gan y cyfeiriad strategol a nodir yn ymgynghoriad cyhoeddus yr Awdurdod ei hun o'r enw 'Eich Gwasanaethau Chi Eich Dewisiadau Chi' a Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub Llywodraeth Cymru ar gyfer 2016 ac Ymlaen; mae'r ddwy ddogfen yn canolbwyntio ar gynnal gwasanaethau tân ac achub fforddiadwy a rhagorol yn 2016-17 a'r tu hwnt.

10.3 Wrth fwrw ymlaen â'r strategaeth yn 2015-16 a'r tu hwnt, bydd angen i'r Awdurdod ystyried y gyfran orau bosibl o staff ar bob system ddyletswydd er mwyn galluogi'r Gwasanaeth i gwrdd â heriau yn y dyfodol. Bydd hyn yn golygu cael adnoddau i ateb y risg, a bydd yn cynnwys hyblygrwydd, argaeledd a chost.

10.4 Esboniodd y PSTC Simmons beth yw'r gwahanol fathau o gontractau sy'n cael eu defnyddio yn y Gwasanaeth erbyn hyn; yn ogystal â dyletswydd amser cyflawn (*wholetime*) a'r ddyletswydd ar gael yn ôl y galw (*RDS*), mae yna gontractau hyblyg a'r cynllun prentisiaethau newydd. Cafodd yr Aelodau eu hatgoffa am yr anawsterau wrth recriwtio diffoddwyr tân i'r system RDS ond cawsant wybod bod yr ymgyrch recriwtio ddiweddar i'r system dyletswydd amser cyflawn wedi denu dros 1,000 o ymgeiswyr.

10.5 Cafodd yr Aelodau gyfle i ofyn cwestiynau ac roeddent yn falch o'r gwaith sy'n mynd ymlaen.

10.6 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**